

Enghraifft o'r wybodaeth gefndirol ar gyfer llenwi ffurflen gais am grant

Cylch Meithrin 123

Adleoliwyd Cylch ym 2015 mis Medi 2015 dan nawdd Dechrau'n Deg. Mae'r cylch wedi gwasanaethu'r ardal ers y 1970. Mae'r cylch yn ddarparwr addysg 3 oed ac yn gylch Dechrau'n Deg.

Cofrestrwyd y cylch gan AGGCC ar gyfer ?? o blant ym mhob sesiwn ac erbyn diwedd tymor yr Haf 2016 roedd sesiynau bore a phrynhawn y cylch yn llawn. Cyflogir ?? o staff yn y cylch gyda phob un wedi'i chymhwyso i lefel uchel. Tystia nifer y plant sy'n mynychu'n ddyddiol i lwyddiant y cylch a'r enw da mae'n ei fagu yn lleol.

Mae'r cylch wedi'i leoli mewn ardal sydd wedi'i hadnabod fel ardal ddifreintiedig, rydym yn gwneud ein gorau i sicrhau fod y plant yn cael profiadau cyfoethog gyda'r offer diweddaraf. Er bod y cylch yn cael arian gan Dechrau'n Deg dim ond sicrhau digon o gyllid i dalu'r staff mae hyn, nid yw'n cynnig digon o gyllid i brynu'r adnoddau sy'n cyfoethogi profiadau'r plant. Oherwydd natur yr ardal nid yw rhai o'r plant yn cael profiadau gartref felly mae lle mawr gan y cylch i wella ansawdd eu profiadau.

Mae Dechrau'n Deg wedi sicrhau fod dodrefn ac adnoddau chwarae tu allan addas ar gyfer y cylch sy'n fodern a deniadol. Gan fod nifer y plant mor uchel mae angen ystod fawr o offer i sicrhau fod digon o amrywiaeth i bob plentyn gael cyfle cyfartal. Oherwydd defnydd helaeth o'r offer maent angen eu hadnewyddu yn rheolaidd gan eu bod yn gwisgo allan.

Rydym wedi adnabod yr angen am ragor o offer TGCh sy'n addas i blant o bob gallu a hefyd offer adeiladu a chreu. Mae gan y cylch fwrdd gwyn rhyngweithiol a chyfrifiadur ond mae angen adnoddau ategol iddo. Er mwyn cyfoethogi'r ddarpariaeth byddem yn hoffi derbyn grant ar gyfer prynu'r canlynol:

- iPad a gorchudd - £307
- Chwaraewr CD gyda 6 clustffon - £82.95
- Big Tracker Ball Mouse - £34.00
- Multi coloured Mouse - £3.00

Mae nifer o blant sydd ag anghenion dysgu ychwanegol yn y cylch a byddai'r adnoddau uchod o help mawr i'w datblygiad ac i sicrhau eu bod yn cael cyfle cyfartal i'w defnyddio. Yn ychwanegol mae adnoddau adeiladu sy'n hybu sgiliau motor mân y plant yn brin. Mae sawl plentyn sy'n derbyn cefnogaeth 1:1 yn cael pleser mawr mewn adeiladu ac mae hyn yn fodd iddynt fynegi eu hunain ac yn galluogi hybu dysgu a sgwrs. Byddai'r adnoddau canlynol yn fanteisiol i hybu'r datblygiadau yma ymhlith yr holl blant:

- Kid K'nex - £71.50
- Sticklebricks Superset - £132.85
- Duplo Town Set - £90.95

Rydym wedi ymgynghori gydag athrawes gysylltiol fel rhan o'n proses hunan arfarnu er mwyn sicrhau fod yr adnoddau rydym yn gofyn amdanynt yn cyd fynd â gofynion y cwricwlwm.